

**CYNGOR BWRDEISTREF SIROL WRECSAM  
ADRODDIAD BLYNYDDOL AELOD**

Dyma adroddiad gan y Cynghorydd isod ynglŷn â'u gweithgareddau allweddol dros y flwyddyn hyd at 31 Mai 2013. Caiff ei ddarparu er gwybodaeth i holl etholwyr ac nid at unrhyw ddiben arall.

**Cynghorydd:** Phil Wynn

**Plaid:** Annibynnol Democrataidd

**Ward:** Brynyffynnon

**Adran 1: Rôl a Chyfrifoldebau**

Rwy'n eistedd ar y pwyllgorau canlynol:

Fel yr unig gynghorydd heb alinio ar y pryd bŵm yn gwasanaethu ar y Pwyllgor Cynllunio yn unig, yn unol â chyfansoddiad y cyngor ar ddyrannu seddi ar bwyllgorau craffu.

Roeddwn hefyd yn aelod o'r Panel Rota Ymweliadau â Chartrefi Plant ar gyfer Aelodau etholedig.

**Adran 2: Gweithgaredd Etholaeth**

1. Wedi mynychu a chefnogi pum grŵp preswylwyr - Ffordd Bradley, Bryn Offa, Homestead a Foxwood Drive, Maesgwyn a Phentre Bach.
2. Herio'r Adran Gynllunio ar y dyraniad annigonol o Fannau Agored Cyhoeddus ar ystâd dai Pentre Bach. Parhaus.
3. Herio swyddogion y cyngor i gydnabod yr angen i fynd i'r afael â llifogydd posibl mewn ardaloedd preswyl ger yr Afon Gwenfro. Parhaus.
4. Fel pob aelod etholedig, yn fy rôl mae'n ofynnol i mi gynghori, cynorthwyo a chynrychioli etholwyr ar y ffordd orau i ddatrys problemau a chwynion personol sydd ganddynt gyda gwahanol adrannau o'r cyngor. Fel arfer, mae materion o'r fath yn cael eu datrys trwy alwad ffôn neu e-bost at y swyddog perthnasol o'r cyngor ond mae llawer o faterion yn faith a gall gymryd misoedd i'w datrys os o gwbl.

**Adran 3: Mentrau a Gweithgareddau Arbennig**

1. Cynorthwyo cyd-lywodraethwyr Ysgol Clywedog i ddatblygu ein menter ar y cyd â Chlwb Pêl-droed Brickfield Rangers. Prosiect parhaus sydd angen caniatâd cynllunio a drafftio prydles i'r clwb pêl-droed ieuencid ddefnyddio caeau hamdden yr ysgol.
2. Fel trysorydd Cymdeithas Glowyr Gogledd Cymru, rwyf wedi bod yn ymwneud â sicrhau'r grant angenrheidiol i alluogi'r grŵp treftadaeth mwynloddio i addasu cyn-fws llyfrgell yn ganolfan dreftadaeth lofaol symudol.
3. 'Rwyf mewn trafodaethau gyda pherchnogion y parc manwerthu Werddon i ddarparu agoriad i gerddwyr yn eu wal garreg derfyn ar Ffordd Ddyfrllyd. Parhaus ac wedi bod am y deng mlynedd diwethaf.
4. 'Rwyf wedi gallu dylanwadu ar swyddogion i ddiweddarau gweithdrefn gwynion y cyngor trwy gyfrwng y broses graffu, yn dilyn gwybodaeth a dynnwyd at fy sylw gan berthynas agos etholwr a oedd yn anhapus iawn gyda'r ffordd yr ymdriniwyd â chwyn yn erbyn y cyngor drwy'r Ombwdsman Cyhoeddus.

#### **Adran 4: Dysgu a Datblygu**

'Rwyf wedi mynychu amryw o weithdai gwybodaeth/hyfforddiant gan y cyngor er budd aelodau etholedig.

#### **Adran 5: Gweithgareddau a Materion Eraill**

1. Cadeirydd Pwyllgor Eiddo yn Ysgol Clywedog. Cymryd rhan yn y broses recriwtio ar gyfer Pennaeth a Dirprwy Bennaeth newydd.
2. Yn fy swydd fel Cynghorydd Cymuned, 'rwyf wedi mynychu cyfarfodydd misol a gynhaliwyd gan Gyngor Cymuned Offa yn rheolaidd.
3. Gwasanaethu ar y pwyllgorau rheoli ar gyfer y Canolfannau Cymunedol Maesgwyn a Bellevue.
4. Wedi mynychu cyfarfodydd misol Cyfeillion Parc Bellevue yn rheolaidd.
5. Cysylltu â gwahanol bartïon â diddordeb wrth geisio sicrhau dyfodol ar gyfer yr Orsaf Achub Glofeydd ar Ffordd Maesgwyn. Parhaus.